			<p>Gyfarwyddiaeth Nyrsio yn helpu i ddatblygu mesurau profiadau.</p> <p>Fel rhan o lythyr cylch gwaith Gweithrediaeth y GIG, rydym wedi cadarnhau y bydd y Weithrediaeth yn rhoi rhaglen ddiogelwch genedlaethol ar waith ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd yn canolbwyntio i ddechrau ar leoliadau i gleifion mewnol a bydd yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion.</p>
Tudalen 12 Tudalen y peeyn 102	<p>Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno targed ar gyfer amseroedd aros am therapiau seicolegol i sicrhau bod y rhai sydd mewn angen yn cael y cymorth hwn o fewn amserlen briodol. Mae mynediad cynnar at therapi priodol yn gallu darparu'r ymyrraeth y mae ei hangen ac atal yr angen i rywun gael gofal argyfwng yn nes ymlaen</p>	<p>Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyhoeddi data amseroedd aros ar gyfer therapiau seicolegol arbenigol ond bu oedi o ran ymgymryd â'r gwaith hwn yn ystod y pandemig.</p> <p>Er nad yw'r data yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi eto, caiff data gweithredol eu cyflwyno gan bob bwrdd iechyd ac fe'u defnyddir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau yn atebol. Comisiynwyd Uned Gyflawni'r GIG i gynnal adolygiad o therapiau seicolegol er mwyn deall y cysondeb a'r amrywiadau rhwng gwasanaethau a threfniadau cyflwyno data rhwng byrddau iechyd.</p> <p>Dim ond un elfen o'r trefniadau mynediad ar gyfer therapiau seicolegol a adlewyrchir gan y data amseroedd aros a gyhoeddir – y gwasanaethau arbenigol. Caiff data eu cyhoeddi eisoes ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, sy'n cynnwys therapiau seicolegol ac rydym wedi atgyfnerthu cymorth</p>	<p>Rydym yn parhau i ddefnyddio'r data gweithredol a gyflwynir gan bob bwrdd iechyd i sicrhau bod gwasanaethau yn atebol drwy gyfarfodydd Gwella, Ansawdd, Perfformiad a Chyflawni misol.</p> <p>Disgwylir i adolygiad Uned Gyflawni'r GIG o therapiau seicolegol gael ei gwblhau ym mis Mai a byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn i lywio'r broses o gyhoeddi'r data wedi hynny. Bydd y gwaith hwn hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r set ddata graidd iechyd meddwl a fydd yn sicrhau ein bod yn gallu adlewyrchu darlun mwy cyflawn o'r ddarpariaeth ledled Cymru.</p> <p>Cafodd y diwygiad cyntaf o'r <u>Tablau tystiolaeth</u> a gyhoeddwyd yn 2021 i sicrhau bod ymyriadau seicolegol yn ddiogel ac yn effeithiol ei ddiwygio ymhellach a rhagwelir y caiff ail ddiwygiad ei gyhoeddi erbyn gwanwyn</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
		<p>Iefel isel, er enghraifft drwy gyflwyno Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar-lein – math arall o therapi seicolegol.</p> <p>Bydd y gwaith i ddatblygu'r set ddata graidd iechyd meddwl yn sicrhau ein bod yn gallu adlewyrchu darlun mwy cyflawn o'r ddarpariaeth ledled Cymru.</p> <p>Rydym yn gweithio gydag AaGIC a Gwelliant Cymru i barhau i ddatblygu'r seilwaith i helpu byrddau iechyd i wella mynediad i therapïau seicolegol. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod proses gadarn gennym ar gyfer ystyried sail tystiolaeth yr ymyriadau sy'n sail i Fatricks Cymru a'r Matrics Plant.</p> <p>Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu'r Matrics Plant ym mis Medi 2021. Cynlluniwyd y cynllun hwn er mwyn helpu i roi'r Matrics Plant: Canllawiau ar gyfer Darparu Ymyriadau Seicolegol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru ar waith. Rhagwelir y bydd yn helpu byrddau iechyd a phartneriaid i sicrhau y caiff ysbryd a manylion y Matrics Plant eu rhoi ar waith.</p>	<p>2023. Cafodd canllawiau ar gyfer gwella mynediad i ymyriadau seicolegol i bobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac i wella effeithiolrwydd yr ymyriadau hynny, eu comisiynu a chânt eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn/haf 2023.</p> <p>Mae adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer dulliau gweithredu seicolegol wedi'u hanelu at leihau anawsterau rheoleiddio emosiynol ymhlith oedolion a phlant sy'n cael cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl hefyd yn mynd rhagddo.</p> <p>Rydym yn parhau i weithio gydag AaGIC i ddatblygu'r seilwaith ar gyfer therapïau seicolegol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ariannu swydd arweinydd proffesiynol i hyrwyddo'r gwaith hwn. Rhagwelir y bydd y broses recriwtio ar gyfer y swydd hon yn digwydd yn fuan.</p>
13	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr alwad a wnaed yn yr adolygiad canol cyfnod o Beth am Siarad â Fi i ddatblygu a gweithredu strategaeth ôl-	Ar sail y ddealltwriaeth a feithriniwyd o'r ymarfer gwrandao a gynhaliwyd yn 2020/21 gyda'r rheini a oedd yn byw mewn profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, mae grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol wedi bod yn cyfarfod i lunio canllawiau ar gyfer ymateb Cymru gyfan i'r	Mae'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiadau Amser Real yng Nghymru, a lanswyd ym mis Ebrill 2022, yn parhau i ddarparu gwybodaeth hanfodol er mwyn helpu i atgyfnerthu ein gwaith ataliol, i wneud yn siŵr

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
	<p>ymyrraeth Cymru gyfan ar gyfer hunanladdiad, ac y dylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu fel un o'r blaenoriaethau pennaf. Dylai hyn gynnwys manylion cymorth dilynol i unigolion sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, ac mewn lleoliadau sefydliadol. Dylai gynnwys yr argymhelliad yn Cadernid Meddwl y dylid rhoi canllawiau i'r holl ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad (ac, fel blaenoriaeth, i ysgolion lle bu achos o hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad). Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau wedi'u clustnodi i weithredu'r strategaeth ôl-ymyrraeth hon.</p>	<p>rheini sy'n dod i gysylltiad â marwolaeth sydyn a allai fod yn hunanladdiad posibl, y rheini yr effeithir arnynt gan achos o'r fath neu sy'n wynebu profedigaeth o ganlyniad (byddai ymateb cyflym yn golygu cyn cwest). Cynhwyswyd staff corffdai, swyddfeydd crwneriaid, trefnwyr angladdau, gofal sylfaenol, asiantaethau cymorth profedigaeth yn dilyn hunanladdiad, gwasanaethau golau glas a gwasanaethau achub.</p> <p>Bydd y System Gwyliadwriaeth Amser Real yn darparu gwybodaeth er mwyn helpu gwasanaethau i sicrhau y caiff y rheini sy'n wynebu profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad gynnig cymorth amserol a phriodol.</p> <p>Mae canllawiau drafft yn destun adolygiad ehangach ar hyn o bryd. Un o argymhellion allweddol y gwaith hwn yw y dylid darparu Gwasanaeth Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Profedigaethau er mwyn cynnig cymorth rhagweithiol ar ôl hunanladdiad posibl. Mae swyddogion yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu neu gomisiynu'r cymorth hwn.</p> <p>Cyhoeddwyd canllawiau ar drafod hunanladdiad ym mis Medi 2019 ac fe'u dosbarthwyd i bob ysgol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer adolygu ymwybyddiaeth mewn ysgolion</p>	<p>bod cymorth ar gael yn gyflym ac i nodi tueddiadau neu glystyrau.</p> <p>Gwnaethom lansio ein dogfen ymgynghori ar ganllawiau drafft 'Ymateb i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth hunanladdiad neu'r rhai mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt yng Nghymru' ar 28 Hydref 2022. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 20 Ionawr 2023 a chafwyd 38 o ymatebion. Mae swyddogion yn edrych dros yr ymatebion ar hyn o bryd.</p> <p>Caiff y canllawiau eu hategu gan Wasanaeth Cyswllt newydd ar gyfer Profedigaethau Hunanladdiad yn ddiweddarach eleni. Bydd y Gwasanaeth yn anelu at sicrhau y caiff cymorth ei gynnig mewn ffordd gyson, amserol a rhagweithiol i bobl y mae marwolaethau sydyn annisgwyl neu lle yr amheuir hunanladdiad wedi effeithio arnynt.</p> <p>Fel rhan o adolygiad o'n canllawiau cyhoeddedig ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niwed mewn ysgolion (2009), mae swyddogion wrthi'n trefnu digwyddiad a gwaith ymchwil arall â ffocws penodol er mwyn cael gwybod barn addysgwyr o ran sut i roi dulliau cyfathrebu diogel ar waith mewn perthynas ag atal hunanladdiad a hunan-niwed ac ôl-ymyrraeth mewn lleoliadau addysgol. Bydd hyn yn llywio gwaith ymchwil er mwyn diweddarau'r</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
		ac maent yn ystyried pa gymorth pellach sydd ei angen yn y maes.	canllawiau i ysgolion, a bydd yn helpu i nodi pa gymorth sydd ei angen ar ysgolion pan fyddant yn dod ar draws achosion o hunanladdiad a hunan-niwed yn yr ystafell ddosbarth.
14	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd ati i hyrwyddo argaeledd yr adnodd Cymorth wrth Law Cymru. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu'n rhagweithiol â grwpiau cymorth y trydydd sector a sicrhau bod staff rheng flaen, yn enwedig gwasanaethau brys, sydd â chysylltiad â'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, nid yn unig yn llwyr ymwybodol o Cymorth wrth Law Cymru ond, yn hollbwysig, yn gallu cael gafael ar gopïau o'r adnodd fel y gellir ei ddsbarthu i'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth ar yr adeg y mae ei angen arnynt. Gan fod yr adnodd hwn eisoes ar gael, dylid rhoi hyn ar waith o fewn 3 mis	<p>Bydd y cyflenwr digidol sy'n datblygu'r hwb hyfforddi yn helpu i ddatblygu fersiwn ddigidol o Cymorth wrth Law, a fydd yn cynnig cyfle i adolygu'r cynnwys, diweddarau'r cyfeiriadau at wasanaethau ac adnoddau yng Nghymru, ac ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod y cynnwys ar gael. Bydd hyn ar gael yn ystod hydref 2022.</p> <p>Yn ystod y cyfnod datblygu, caiff 'cerdyn busnes' â Chod QR i'r fersiwn gyfredol ar wefan Dewis Cymru ei argraffu i'w roi i ymatebwyr rheng flaen ledled Cymru.</p> <p>Gall yr un Cod QR dywys pobl i'r fersiwn ddigidol newydd pan fydd ar gael.</p>	<p>Mae'r Cydgysylltwyr Hunanladdiad a Hunan-niwed Cenedlaethol a Rhanbarthol wedi creu cod QR er mwyn helpu timau lleol a gweithwyr rheng flaen i gael gafael ar yr adnoddau Cymorth wrth Law Cymru ar Dewis Cymru yn hawdd yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p> <p>Lanlwythwyd y ddogfen hefyd erbyn hyn i blatfform digidol Tudalennau Cymorth wrth Law – GIG SSHP.</p> <p>Yn ogystal, fel y nodwyd yn Argymhelliad 13, caiff ein canllawiau drafft 'Ymateb i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth hunanladdiad neu'r rhai mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt yng Nghymru' eu hategu gan Wasanaeth Cyswllt newydd ar gyfer Profedigaethau Hunanladdiad yn ddiweddarach eleni. Bydd y Gwasanaeth yn anelu at sicrhau y caiff cymorth ei gynnig mewn ffordd gyson, amserol a rhagweithiol i bobl y mae marwolaethau sydyn annisgwyl neu lle yr amheuir hunanladdiad wedi effeithio arnynt.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023	
Tudalen y pae yn 106	15	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o lwybr ôl-ymyrraeth Cymru gyfan, roi ystyriaeth ddwys i ddarparu cyllid ar gyfer grwpiau cymorth i'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, fel bod pobl ledled Cymru yn gallu cael cymorth y mae ei ddirfawr angen. Credwn y gall grwpiau o'r fath gyflawni rôl allweddol o ran cefnogi iechyd meddwl a lles meddyliol y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad. Gallai hyn yn ei dro arwain at lai o alw am wasanaethau'r GIG.	Gweler y wybodaeth am 'Wasanaeth Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Profedigaethau' yn argymhelliad 13. Is this correct – did we say this last time.	Mae'r argymhelliad hwn bellach wedi'i gau. Gweler y wybodaeth am 'Wasanaeth Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Profedigaethau' yn argymhelliad 13.
	17	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr y GIG yng Nghymru i sicrhau bod pob cyflogai sydd wedi ymdrin ag achosion o hunanladdiad/yngais i gyflawni hunanladdiad yn gallu cael gafael ar gymorth priodol	Rydym yn disgwyl i bob bwrdd iechyd roi cymorth priodol i bob aelod o staff yn dilyn digwyddiadau trawmatig. Mae iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol wedi cael ei ailenwi'n 'Canopi' ac mae'n rhoi cymorth iechyd meddwl i staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer straen wedi trawma.	Mae'r Cydgysylltydd Hunanladdiad a Hunan-niwed Cenedlaethol wedi cysylltu â Canopi ac wedi gwneud cyflwyniad fel rhan o'i symposiwm cenedlaethol ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd gwaith ymgysylltu pellach yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael ar atal hunanladdiad a hunan-niwed.

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
Tudalen y 107		<p>Mae'r gwaith hwn yn waith parhaus, ac mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol yn cynnal trafodaethau â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion ynghylch rheoli trawma mechnïol, ond hefyd ynghylch sut y gallwn baratoi staff ar gyfer cwestau, er enghraifft.</p> <p>Rydym hefyd yn cyfeirio unigolion at yr adnodd First Hand Hafan – First Hand (first-hand.org.uk) sy'n helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt gan hunanladdiad unigolyn nad oeddent yn ei adnabod.</p>	<p>Rydym yn parhau i ddisgwyl i bob bwrdd iechyd roi cymorth priodol i bob aelod o staff yn dilyn digwyddiadau trawmatig.</p> <p>Mae'r argymhelliad hwn bellach wedi'i gau.</p>
	18	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod hunanladdiad ymhlith dynion fel blaenoriaeth genedlaethol ac yn dyrannu cyllid priodol i adnabod a gweithredu dulliau newydd o leihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl er mwyn annog dynion i siarad amdano a cheisio cymorth. Dylai hyn gynnwys cyfle i gyflwyno prosiectau presennol yn ehangach</p>	<p>Mae atal hunanladdiad yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a sefydlwyd Grŵp Trawslywodraethol newydd i atgyfnerthu'r dull gweithredu. Rydym hefyd wedi ymrwymo cyllid ychwanegol er mwyn atal hunanladdiad yn 2022-23.</p> <p>Yn ddiweddar, sefydlwyd y system Gwylidwriaeth Hunanladdiadau Amser Real gennym yng Nghymru. Bydd y system hon yn darparu mynediad mwy amserol i wybodaeth am bob achos tebygol o hunanladdiad (gan gynnwys hunanladdiadau ymhlith dynion) er mwyn nodi cyfleoedd atal a sicrhau y caiff cymorth priodol ei roi.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
		<p>Fel rhan o'n rhaglen i adolygu a datblygu strategaeth olynol i Beth am Siarad â Fi, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac yn adolygu'r dystiolaeth er mwyn sicrhau bod camau gweithredu newydd yn seiliedig ar dystiolaeth. O ystyried cyffredinrwydd achosion o hunanladdiad ymhlith dynion canol oed, byddem yn disgwyl i hynny fod yn faes ffocws allweddol.</p> <p>Rydym hefyd yn gweithio gyda'n Cydgysylltydd Hunanladdiad Cenedlaethol i gytuno ar raglen waith er mwyn adolygu tystiolaeth rhaglenni ac ymyriadau atal hunanladdiad sy'n canolbwyntio ar ddynion canol oed.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer'.</p>	<p>ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac yn adolygu'r dystiolaeth er mwyn sicrhau bod camau gweithredu newydd yn seiliedig ar dystiolaeth. O ystyried cyffredinrwydd achosion o hunanladdiad ymhlith dynion canol oed, byddem yn disgwyl i hynny fod yn faes ffocws allweddol.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu wedi'i dargedu, byddwn yn dadansoddi data'r SYG a data o'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiadau Amser Real er mwyn nodi grwpiau sy'n wynebu risg.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer' a thrwy ddatblygu strategaethau newydd.</p>
19	Rydym yn cymeradwyo argymhelliad yr adolygiad canol cyfnod o Beth am Siarad â Fi y dylai gweithredu canllawiau NICE ar hunan-niweidio fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dylid gweithredu hyn o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn	<p>Cynhaliwyd gweithdy ym mis Chwefror 2022 i godi proffil canllawiau newydd NICE ar gyfer asesu a rheoli achosion o hunan-niwed a oedd yn destun ymgynghoriad ar y pryd.</p> <p>Disgwylir i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni a chynhelir gweithdy arall bryd hynny i'r rheini a gaiff eu nodi fel asiantaethau allweddol ar gyfer rhoi'r canllawiau ar waith, er mwyn ystyried cyfleoedd a rhwystrau ac er mwyn llywio sut y byddwn yn</p>	Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig NICE (asesu a rheoli hunan-niwed a'i atal rhag ailddigwydd ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi hunan-niweidio) ym mis Medi 2022. Cynhaliwyd gweithdy ar y canllawiau fel rhan o'r Gynhadledd Genedlaethol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niwed ar 2 Mawrth 2023 ac roedd yr Athro Nav Kapoor a oedd yn aelod o bwyllgor NICE yn bresennol yn y gweithdy hwnnw.

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
Tudalen y peyrn 109		helpu gweithwyr rheng flaen i weithio yn unol â'r canllawiau.	<p>Caiff prif themâu'r gynhadledd eu rhannu ar yr hwb digidol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru.</p> <p>Mae'r canllawiau diwygiedig wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol y tu hwnt i'r gwasanaeth iechyd neu faes iechyd meddwl (e.e. staff mewn lleoliadau addysg, sefydliadau'r trydydd sector a'r system cyfiawnder troseddol) ac mae angen rhagor o waith er mwyn penderfynu sut y gellir sicrhau bod llwybrau amlasiantaeth ar gyfer pobl y mae achosion o hunan-niwed wedi effeithio arnynt yn cydymffurfio â chanllawiau NICE.</p>
	24 Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr argymhellion yn Cadernid Meddwl gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gwella a diogelu iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru. O ran hunanladdiad yn benodol, rydym yn argymhell y dylai'r argymhelliad yn Cadernid Meddwl ynghylch canllawiau i ysgolion (argymhelliad 16 yn yr adroddiad) gael ei roi ar waith fel un o'r blaenoriaethau	Cyflwynir adroddiadau ar weithgareddau pellach mewn ymateb i'r cam gweithredu hwn fel rhan o ddiweddariadau yn erbyn argymhellion Cadernid Meddwl.	Cyflwynir adroddiadau ar weithgareddau pellach mewn ymateb i'r cam gweithredu hwn fel rhan o ddiweddariadau yn erbyn argymhellion Cadernid Meddwl.

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
Tudalen y pae yn 110	<p>pennaf: Bod Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â hunanladdiad yn benodol, yn gweithio gyda sefydliadau arbenigol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ i ddarparu, o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, ganllawiau i ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio, i chwalu'r syniad y bydd unrhyw drafodaeth yn arwain at ymateb 'heintus'; ▪ i roi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau i ysgolion lle bu hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad; ac ▪ i sicrhau bod hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol, gan gynnwys sut i siarad am hunanladdiad, yn rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, fel bod yr holl athrawon yn gallu siarad am hynny 		
31	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus eraill (BILlau / ALLau) yn trefnu bod cyllid penodol ar gael ar gyfer atal hunanladdiad i sicrhau ei fod	Sefydlwyd Grŵp Strategol Trawslywodraethol newydd ar Atal Hunanladdiad er mwyn atgyfnerthu trefniadau rheoli rhaglen y rhaglen waith atal hunanladdiad. Bydd hyn yn cynnwys annog gwaith ym mhob rhan o'r Llywodraeth a	Mae'r cyllid ychwanegol a chylchol ar gyfer atal hunanladdiad wedi atgyfnerthu'r seilwaith yng Nghymru yn sylweddol. Mae hyn yn cynnwys y Cydgysylltydd Cenedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed a'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol, sefydlu System

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Mehefin 2023
	<p>yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol i ganfod faint o gyllid sydd ei angen i sicrhau'r cynaliadwyedd hwn, a chlustnodi'r swm priodol</p>	<p>blaenoriaethu buddsoddiadau er mwyn cefnogi'r dull gweithredu hwn.</p> <p>Dyrannwyd cyllid cylchol ychwanegol i'r rhaglen waith atal hunanladdiad yn 2022/23.</p> <p>Yn arbennig, bydd y cyllid newydd yn cefnogi'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiadau Amser Real newydd yng Nghymru a lansiwyd ym mis Ebrill 2022 ac yn gwella cymorth profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad.</p> <p>Yn ogystal, mae'r broses ehangach o drawsnewid gwasanaethau yn canolbwyntio ar atal hunanladdiad – er enghraifft, y gwaith i wella gofal argyfwng a'r trefniadau ar gyfer sefydlu pwyntiau cyswllt unigol ar gyfer iechyd meddwl fel rhan o'r gwasanaeth 111.</p> <p>Mae gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal o Beth am Siarad â Fi ar hyn o bryd a bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwnnw yn llywio unrhyw gamau nesaf priodol.</p>	<p>Gwyliadwriaeth Amser Real sy'n cynnwys adnoddau dadansoddol a'r Gwasanaeth Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Teuluoedd sydd wedi wynebu Profedigaeth o ganlyniad i Hunanladdiad a gaiff ei gomisiynu'n fuan.</p> <p>Bydd hyn yn sicrhau bod adnoddau penodedig a sefydlogrwydd wrth ymateb i achosion o hunanladdiad a hunan-niwed yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r argymhelliad hwn bellach wedi'i gau.</p>


6 June 2023

Russell George MS
Chair, Health and Social Care Committee
Senedd Cymru

**Health Service Procurement (Wales) Bill**

Thank you for your letter of 24 May 2023 drawing the Secondary Legislation Scrutiny Committee's attention to this legislation. The Committee will be very grateful for the information offered by your Stage I report when, in due course, considering any procurement regulations brought forward by the UK Government.

May I also take this opportunity to reassure you that, when considering regulations laid before Parliament, this Committee always keeps a watchful eye on cross-border issues that may impact the Devolved Administrations.

**Rt Hon. the Lord Hunt of Wirral MBE***Chair of the Secondary Legislation Scrutiny Committee*

Sue Tranka
Prif Swyddog Nyrsio Cymru

31 Mai 2023

Annwyl Sue

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn cynnal ymchwiliad er mwyn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae rhagor o fanylion am gylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gael ar ein [gwefan](#).

Ar hyn o bryd, rydym yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig, ac rydym yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid yn ddiweddarach eleni. Byddwn hefyd yn eich gwahodd chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sesiwn dystiolaeth lafar maes o law.

Yn y cyfamser, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r eitemau a ganlyn:

1. Copïau o'r adnoddau cynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddisgrifir ym mharagraff 41 o'r [canllawiau statudol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\) 2016 \(fersiwn 2\)](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, neu lincs i'r adnoddau hynny.

Os nad oes modd darparu copïau o'r adnoddau hynny, neu lincs iddynt, dylech ddarparu sgrinluniau o'r adnoddau dan sylw a/neu ddisgrifiad llawn o sut maent yn gweithio.

2. Copi o'r canllawiau gweithredol ynghylch defnyddio'r adnoddau a ddisgrifir ym mharagraff 43 o'r canllawiau statudol.



HSC(6)- 24-23 Papur i'r nodi 11 | Paper to note 11

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon yr eitemau hyn atom erbyn dydd Gwener 15 Gorffennaf 2023, a hynny er mwyn rhoi cyfle inni ystyried y wybodaeth dan sylw wrth baratoi i gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end.

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Russell George MS
Chair, Health and Social Care Committee
Senedd Health,
Welsh Parliament,
Cardiff Bay,
Cardiff,
CF99 1SN

By email: SeneddHealth@senedd.wales

16 May 2023

Dear Mr George,

I am writing to share [the Nursing and Midwifery Council's \(NMC\) response to the Department of Health and Social Care's \(DHSC's\) consultation](#), concerning draft legislation for regulating anaesthesia associates (AAs) and physician associates (PAs). This draft Order will also form a template for replacing the existing legislation that sets out how other health and care professionals are regulated, including nurses and midwives registered with the NMC.

The draft Order marks the next step in introducing positive change to our legislation. We have long called for this change because our legislation, written in 2001, has failed to keep pace with changes in society and nursing and midwifery practice.

In our role as the regulator of almost 39,000 nursing and midwifery professionals in Wales, and more than 771,000 professionals across the UK, it is vital we have the tools available to regulate well. Through regulatory reform, we hope to have more modern, flexible legislation that better enables us to protect the public we serve, and support the professionals who are at the core of Welsh health and care services.

The draft AAPA Order provides a clearer, more coherent approach to regulation. It largely aligns with our aspirations for regulatory reform and would provide us with the flexibility to pursue further improvements.

However, certain key functions outlined in the draft legislation require greater clarity, while others remain unduly restrictive. In parts, the drafting is overly complicated and could lead to confusion, ambiguity and some of the central benefits of the proposed reforms remaining out of reach.

The AAPA Order consultation document indicates that the DHSC plans to begin working with us, alongside the General Medical Council and Health and Care Professions Council, to develop a subsequent set of legislation to replace our existing frameworks.

We look forward to working with the DHSC and our partners to make sure these reforms enable us to better support nurses and midwives to provide safe and effective care to people and communities.

23 Portland Place, London W1B 1PZ
020 7637 7181
www.nmc.org.uk

We're the independent regulator for nurses and midwives in the UK, and nursing associates in England. Our vision is safe, effective and kind nursing and midwifery that improves everyone's health and wellbeing.

Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)

We will be back in touch with you in due course to notify you of next steps for our engagement on this reform programme.

If you have any questions in the meantime, please contact public.affairs@nmc-uk.org.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Matthew McClelland". The signature is written in a cursive style with a large initial 'M'.

Matthew McClelland
Executive Director of Strategy and Insight

RNIB Cymru

Jones Court,
Stryd Womanby Street,
Caerdydd / Cardiff CF10 1BR

rnib.org.uk

Llinell Gymorth yr RNIB Helpline: 0303 123 9999

helpline@rnib.org.uk

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llythyr a anfonir ar e-bost i: SeneddHealth@senedd.wales



Annwyl: 16/05/2023

Annwyl Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i hysbysu eich gwaith parhaus yn monitro'r cynnydd tuag at yr uchelgeisiau a nodir yng [nghynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal sydd wedi'i gynllunio](#).

Mae RNIB Cymru yn pryderu bod y targedau lleihau rhestrau aros a amlinellir yn y cynllun yn methu â rhoi cyfrif am dargedau blaenoriaethu clinigol. O ganlyniad, mae diffyg sylw gwleidyddol a chraffu ar dargedau blaenoriaethu clinigol sydd ar gael yn gyhoeddus fel y [Mesurau Gofal Llygaid ar gyfer cleifion allanol y GIG](#).

Nid yw'n ymddangos bod byrddau iechyd yn cael eu dal yn atebol am gyrraedd y targedau hyn, sy'n caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol amhriodol a chanlyniadau negyddol i gleifion.

Cefndir

Yn 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Fesurau Gofal Llygaid ar gyfer Cleifion Allanol y GIG yng Nghymru (ECM)** ar ôl i bryderon gael eu codi bod gwasanaethau Offthalmoleg ledled Cymru yn cael

anhawster rheoli materion allweddol yn ymwneud â chapasiti a galw. Roedd cleifion yn aros yn llawer rhy hir o'r atgyfeiriad cychwynnol gan ofal sylfaenol i asesiad a thriniaeth ddilynol. Achosodd hyn i nifer sylweddol o gleifion â chyflyrau y gellir eu trin golli eu golwg yn barhaol.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno'r targedau blaenoriaethu clinigol pwrpasol hyn ar gyfer Offthalmoleg. Nod cyflwyno'r ECM oedd symud y ffocws oddi wrth dargedau RTT traddodiadol o blaid dull mwy darbodus o reoli rhestrau aros a blaenoriaethu clinigol. Yn wahanol i RTT, mae'r ECM yn caniatáu i gapasiti clinigol gael ei gyfeirio at yr achosion mwyaf brys yn glinigol i sicrhau bod y cleifion sydd â'r lefelau uchaf o risg sy'n gysylltiedig â'u cyflwr yn cael eu trin o fewn amserlen ddiogel a chlinigol briodol.

Mae hyn yn hollbwysig ar gyfer Offthalmoleg oherwydd bod angen gweld nifer sylweddol o gleifion yn llawer cynt na'r targed RTT o 26 wythnos er mwyn lliniaru'r risg o niwed neu ddallineb na ellir ei wyrdroi. O dan y system ECM, mae Ffactor Risg Iechyd (HRF) yn cael ei neilltuo i bob claf newydd a dilynol yn seiliedig ar eu hangen clinigol a rhoddir dyddiad targed unigol iddynt ar gyfer pryd dylent gael eu gweld. Mae'r categorïau HRF fel a ganlyn:

R1 – risg o niwed na ellir ei wyrdroi neu ganlyniad niweidiol sylweddol i glaf os methir y dyddiad targed.

R2 – risg o niwed y gellir ei wyrdroi neu ganlyniad niweidiol os methir y dyddiad targed.

R3 – dim risg o niwed sylweddol neu ganlyniad niweidiol.

Bob mis, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau ar nifer a chanran y derbyniadau ar gyfer y cleifion hynny yr aseswyd eu bod mewn perygl o niwed na ellir ei wyrdroi neu ganlyniad niweidiol sylweddol pe bai eu dyddiad targed yn cael ei fethu (R1). **Yn gryno, mae cleifion sydd wedi'u categoreiddio fel R1 mewn perygl gwirioneddol o fynd yn ddall neu ddioddef colled golwg sylweddol, na ellir ei wyrdroi, os caiff eu triniaeth ei gohirio.**

Beth mae'r data ECM diweddaraf yn ei ddangos?

Mae'r [data ECM diweddaraf sydd ar gael](#) ar gyfer mis Chwefror 2023 yn dangos bod llai na hanner y 138,646 o gleifion (48.6 y cant) sydd wedi'u categoreiddio fel rhai â'r risg uchaf o niwed na ellir ei wyrdroi (R1) wedi'u gweld o fewn eu dyddiad targed diogel yn glinigol.

Mae hyn yn golygu bod mwy na 71,000 o bobl yng Nghymru yn aros yn rhy hir am driniaeth ac mewn perygl o golled golwg y gellid ei atal.

Ers mis Gorffennaf 2020, ni fu un mis pan welwyd mwy na hanner y cleifion R1 o fewn eu dyddiad targed clinigol diogel.

Beth sy'n cael ei wneud?

Cynllunio ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau targedau rhestrau aros

Y targedau lleihau rhestrau aros a bennwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i Offthalmoleg yw:

- Neb yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf erbyn diwedd 2022.
- Dileu nifer y bobl sy'n aros am fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023.
- Dileu nifer y bobl sy'n aros am fwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn Gwanwyn 2025.

Mae'r targedau hyn yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr amser y mae pobl yn ei aros am apwyntiad cychwynnol ond nid ydynt yn canolbwyntio ar flaenoriaethu clinigol nac ar driniaethau dilynol sy'n angenrheidiol i achub golwg pobl. Mae hyn yn golygu nad oes rheidrwydd gwleidyddol i flaenoriaethu pobl sydd mewn perygl o golled golwg na ellir ei wyrddroi dros y rhai â chyflyrau llai brys sy'n gyflymach i'w trin ac sydd felly'n cael mwy o effaith yn erbyn targedau rhestrau aros y llywodraeth.

Rydym wedi cael gwybod bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn rhai byrddau iechyd sy'n glinigol amhriodol. Er enghraifft, adleoli Offthalmolegwyr o glinigau pigiadau Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig ag Oedran (AMD) er mwyn trin cyflyrau fel cataractau sy'n peri llai o risg ond yn gyflymach o ran triniaeth. Mae'r penderfyniad i flaenoriaethu triniaethau cataract dros AMD yn gwbl groes i'r agenda blaenoriaethu clinigol y daethpwyd â'r ECM i rym i'w hymgorffori.

Mae AMD yn gyflwr a all achosi niwed na ellir ei wyrddroi i gleifion os ydynt yn aros y tu hwnt i'w dyddiad targed am driniaeth. Gall cleifion ag AMD Gwlyb brofi colled golwg parhaol sy'n datblygu'n gyflym dros gyfnod o wythnosau neu hyd yn oed ddyddiau. Mae angen triniaethau rheolaidd ar gleifion ar y llwybr AMD i sicrhau eu bod yn cadw eu golwg

ac felly'n cael eu categoreiddio fel R1. Mewn cyferbyniad, mae cataractau'n gyflwr a all achosi niwed ond unwaith y cânt eu trin, gellir gwyrddroi'r effeithiau niweidiol. Felly mae llwybrau cataract yn cael eu categoreiddio fel R2. Fodd bynnag, mae cataractau yn llawer cyflymach i'w trin nag AMD.

Diwygio optometreg

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar raglen uchelgeisiol o ddiwygio gwasanaethau Optometreg. Bydd optometryddion cymunedol yn chwarae mwy o ran mewn triniaeth iechyd llygaid, diagnosis ac ôl-ofal. Bydd hyn yn helpu i ryddhau capasiti Offthalmolegwyr i ganolbwyntio ar drin clefyd dallu'r llygaid sydd ond yn gallu cael ei drin ganddynt hwy. Mae RNIB Cymru yn croesawu'r fenter hon, ond bydd ei gweithredu'n llawn yn cymryd nifer o flynyddoedd ac mae cleifion yn parhau i fod mewn perygl o golled golwg parhaol y gellid ei osgoi.

Ni fydd diwygio optometreg yn datrys yr argyfwng hwn ynddo'i hun. Mae'r galw am wasanaethau gofal llygaid mewn ysbytai yn llawer uwch na'r capasiti. Gwasanaethau gofal iechyd llygaid yw rhai o'r prysuraf yng Nghymru gyda chlinigau offthalmoleg mewn ysbytai yn gweld 10 y cant o'r holl apwyntiadau cleifion allanol – a disgwylir i hyn gynyddu 40 y cant yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.¹

Bydd angen i Fyrddau Iechyd barhau i fod â capasiti Offthalmig digonol mewn gofal eilaidd i drin cleifion sy'n wynebu'r perygl mwyaf o golled golwg y gellid ei osgoi. Dim ond trawsnewid radical ar y gwasanaeth Gofal Llygaid yng Nghymru fydd yn atal cleifion rhag mynd yn ddall yn ddiangen. Yn y pen draw, dim ond Offthalmolegwyr all roi triniaethau achub golwg ac nid oes cynllun ar waith i ddatrys y prinder brys yn y gweithlu ym maes gofal eilaidd.

Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Gofal Llygaid yng Nghymru
Disgrifiodd adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr yn 2021 y sefyllfa staffio mewn rhai byrddau iechyd fel un "hynod ddifrifol" a "bregus iawn".² Mae Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr yn cynghori y dylai fod 3.0 a 3.5 o Offthalmolegwyr Ymgynghorol ar gyfer pob 100 000 o'r boblogaeth. Yn Lloegr, mae'r realiti yn amrywio rhwng yr achos gorau o 3.1 yn Llundain, ac 1.8 yn Nwyrain Lloegr. Ar gyfer Cymru y rhif yw 1.8.

¹ RNIB (2022) [Adnodd Data Colled Golwg](#)

² Andrew Pyott (2021), [External Review of Eye Care Services in Wales \(rcophth.ac.uk\)](#)

Roedd yr adroddiad yn argymhell sefydlu tair canolfan ragoriaeth ranbarthol ledled Cymru. Byddai'r canolfannau hyn yn annog recriwtio newydd ac yn caniatáu cyfuno capasiti, arbenigedd a thechnolegau Offthalmig i sicrhau gwasanaeth effeithlon a chynaliadwy. Byddai pob canolfan yn darparu gwasanaethau ymweld arbenigol mewn ardaloedd cyfagos i alluogi pobl â chyflyrau sy'n gofyn am driniaethau rheolaidd i gael mynediad at y rhain yn nes at eu cartrefi.

Mae gwaith ar droed o fewn Llywodraeth Cymru i ystyried argymhellion yr adroddiad hwn a dyfodol Gwasanaethau Gofal Llygaid yng Nghymru. Disgwylir yr adroddiad ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, ni fu unrhyw ymrwymiad Gweinidogol cyhoeddus i drawsnewid ac nid oes unrhyw gynlluniau ar waith o hyd i leihau nifer y bobl sydd mewn perygl o golled golwg y gellid ei osgoi sy'n aros y tu hwnt i'w dyddiad targed yn y **tymor byr, canolig neu hir**.

Bedair blynedd ers cyflwyno'r ECM am y tro cyntaf, mae niferoedd cynyddol o bobl yng Nghymru yn dal i golli eu golwg yn ddiangen wrth aros am driniaeth gan y GIG.

Rhaid cymryd camau radical nawr.

Crynodeb

Gofynnwn i'r Pwyllgor ystyried y materion hyn wrth ddadansoddi a chraffu ar gynllun lleihau rhestrau aros Llywodraeth Cymru ac wrth ddatblygu ei adroddiadau monitro tymhorol.

Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar petaech yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sut bydd yn sicrhau gwasanaethau gofal llygaid cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n sbarduno cynnydd yn erbyn yr ECM. Rhaid i gynlluniau fynd i'r afael â heriau capasiti a gweithlu a chynnwys amserlenni a thargedau ar gyfer lleihau nifer y cleifion sy'n aros y tu hwnt i'w dyddiad targed clinigol diogel. Dylent hefyd nodi sut gellir ymgorffori egwyddorion ar gyfer trin a blaenoriaethu cleifion risg uchel wrth wneud penderfyniadau clinigol a rheoli rhestrau aros.

Byddem yn hapus i gwrdd â'r Pwyllgor neu ag Aelodau unigol i drafod unrhyw rai o'r materion hyn yn fanylach.

Cofion cynnes

Ansley Workman, Cyfarwyddwr, RNIB Cymru

Nathan Owen, Rheolwr Materion Allanol, RNIB Cymru

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS,
 Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
 Senedd Cymru
 Bae Caerdydd
 Caerdydd
 CF99 1SN

08 Mehefin 2023

Annwyl Russell

Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi ymgynghori yr haf diwethaf ar archwilio cynigion sy'n ymwneud â chefnogi amgylchedd bwyd iachach yng Nghymru. Cyhoeddais grynodedb o'r canfyddiadau ym mis Ionawr [Amgylchedd Bwyd Iach –Crynodedb o'r Ymatebion](#), lle cawsom ymgysylltiad helaeth gan y cyhoedd, gan sefydliadau a gan y diwydiant bwyd. Rwyf bellach yn bwriadu cyflwyno datganiad llafar ar 27 Mehefin a fydd yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyrwyddo prisiau a lleoliadau.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi yn gynnar am fy mwriad i gyflwyno datganiad llafar i'r Senedd, ac i gyflwyno is-ddeddfwriaeth yn 2024. Rwy'n hapus i ymgysylltu â chi a'r Pwyllgor ynghylch y datganiad a byddwn yn croesawu eich barn ar ba fath o ymgysylltiad fyddai o ddefnydd i chi ac aelodau eraill i gefnogi eich gwaith craffu.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn yn dilyn y datganiad ac at gydweithio ar y maes pwysig hwn.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
 0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
 Caerdydd • Cardiff
 CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.